**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JJ/02950/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

18 Ionawr 2023

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr ar 21 Rhagfyr ynghylch Deiseb P-06-1272 (Gwahardd defnyddio 'cymalau dim anifeiliaid anwes' mewn cytundebau tenantiaeth yng Nghymru), yn gofyn beth sy'n cael ei wneud i godi ymwybyddiaeth o hawliau pobl o ran Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi ymgyrch gyfathrebu gynhwysfawr ar waith er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r newidiadau i hawliau a chyfrifoldebau sy'n deillio o Ddeddf 2016. Mae'r ymgyrch wedi targedu deiliaid contractau (tenantiaid a thrwyddedeion) a landlordiaid, ac mae'r negeseuon allweddol hefyd ar gael mewn 11 o ieithoedd a ddefnyddir yn aml yng Nghymru, yn ogystal ag yn Gymraeg a Saesneg. Roedd yr ymgyrch yn cynnwys hysbysebion ar-lein, ar y radio a'r teledu, a negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol. Cyhoeddwyd erthyglau ar-lein ac mewn fersiynau print o'r Western Mail a'r Daily Post. Er bod yr ymgyrch yn dal i fynd rhagddi, mae gwerthusiad cychwynnol o'i heffeithiolrwydd yn gadarnhaol iawn. Er enghraifft, mae cyfraddau 'clicio trwodd' uchel yn cael eu cofnodi o gynnwys ar-lein. Cysylltodd Rhentu Doeth Cymru yn uniongyrchol â landlordiaid, y gosodwyd dyletswyddau arnynt i roi contractau wedi eu trosi a sicrhau bod cartrefi yn ffit i fod yn gartrefi, drwy negeseuon rheolaidd ar e-bost ac SMS, gyda phob neges yn canolbwyntio ar agwedd wahanol ar y ddeddfwriaeth newydd. Mae tudalen yr ymgyrch ar gael ar: Mae cyfraith tai yn newid: Rhentu Cartrefi Cymru | LLYW.CYMRU.

Cyhoeddwyd cyfres o ganllawiau manwl ar y ddeddfwriaeth ar ein gwefan (Rhentu Cartrefi: mae cyfraith tai yn newid | Is-bwnc | LLYW.CYMRU) er mwyn cyd-fynd â'r ymgyrch gyfathrebu, ac ar wefannau rhanddeiliaid gan gynnwys Shelter Cymru, Cyngor ar Bopeth Cymru, Cymdeithas Genedlaethol Landlordiaid Preswyl (NRLA) a Propertymark. Mae'r deunyddiau canllaw yn cynnwys, er enghraifft, y datganiadau ysgrifenedig enghreifftiol o gontract, canllawiau ar drosi tenantiaethau sy'n bodoli eisoes, a'r gofynion newydd o ran ffitrwydd i fod yn gartref. Mae'r wybodaeth hefyd ar gael mewn fformat hawdd ei ddeall ac iaith glir, er mwyn sicrhau bod pawb yn ei ddeall. Darperir hyfforddiant ar-lein am ddim ar Ddeddf 2016 gan Rhentu Doeth Cymru (gweler: Deddf Rhentu Cartrefi: Mae'r ffordd rydych yn rhentu wedi newid – Rhentu Doeth Cymru (llyw.cymru), ac mae nifer o bartneriaid eraill hefyd yn cynnig hyfforddiant.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Drwy gydol y broses o roi’r ddeddfwriaeth ar waith, mae swyddogion hefyd wedi ymgysylltu’n uniongyrchol â miloedd o landlordiaid, asiantaethau gosod eiddo, tenantiaid a rhanddeiliaid eraill, i’w briffio ar y newidiadau ac i ateb cwestiynau unigol. Yn ei dro, llywiodd hyn y broses o gynhyrchu’r dogfennau cwestiynau cyffredin sydd ar wefan Llywodraeth Cymru.

Gobeithio bod hyn yn grynodeb defnyddiol o’r gwaith eang sydd wedi ei wneud i godi ymwybyddiaeth o Ddeddf 2016.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change